# DEWI JONES o Ddyffryn Nantlle a
# RHAMANT Y RHEDYN

MAE LLAWER iawn ohonom ni, ddarllenwyr **Y Casglwr**, yn cael pleser mawr wrth gasglu llyfrau. Mae eraill sy'n gwirioni'n lân wrth hel cardiau post neu stampiau neu hen boteli. Ond ar un cyfnod fe fu yng Nghymru chwiw boblogaidd iawn o gasglu rhedyn.

Dechreuodd hyn yn ystod tri-degau y bedwaredd ganrif ar bymtheg a pharhau hyd ddechrau'r ganrif bresennol. Cesglid y rhedyn gan lysieuwyr a chan dywysyddion lleol. Roedd y llysieuwyr yn sychu a gwasgu'r planhigion a'u gosod yn daclus rhwng dalennau ei 'Herbarium' i'w mwynhau ac i'w dangos i'w cyfeillion.

Ond i bwrpas mwy ymarferol yr heliai y tywysyddion lleol y rhedyn. Arferent hwy eu gwerthu i ymwelwyr ym mhentrefi fel Llanberis, Beddgelert a Betws y Coed er mwyn ychwanegu at eu cyflog prin.

Crwydrai yr helwyr rhedyn lefydd fel Cwm Idwal, Cwmglas Mawr, Yr Wyddfa a Moel Hebog gan browla hyd y clogwyni am redyn prin fel yr *"Oblong Woodsia"* (Woodsia ilvensis), *"Alpine Woodsia"* (Woodsia alpina) – ni wn am enwau Cymraeg i'r rhain – Y Rhedyn Celyn (Polystichum lonchitis), Rhedyn y Clogwyn (Asplenium septetrionale), a'r mwyaf prin sef Y Llugwe Fawr (Trichomanes speciosum).

Wedi iddynt ddarganfod safloeoedd y rhedyn, codent hwy o'r gwraidd, y cyfan fyddai yno fel arfer, a'u cludo ymaith, un ai i'w casgliadau eu huanin, neu i'w gwerthu i ymwelwyr.

Byddai rhai o'r mwynwyr a weithiau yng ngweithfeydd copr Yr Wyddfa hefyd yn hela rhedyn; dringent estyll y clogwyni a'r creigiau wedi gorffen eu gwaith ar nos Wener, ac wedi cludo eu helfa gartref trawsblannent y rhedyn i botiau pridd a'u gosod wedyn ar riniog eu drysau ffrynt i'w gwerthu am goron yr un.

Mae'n ddiddorol sylwi mai "haliffars" y galwent hwy y Rhedyn Celyn (Polystichum lonchitis), ffurf lafar Gymraeg ar yr enw Saesneg *"Holly Fern"*, mae'n siŵr.

* * *

ERBYN pum-degau y bedwaredd ganrif ar bymtheg daeth trafeilio'n beth tipyn hwylusach gyda dyfodiad y rheilffyrdd a dyma'r adeg pan gyrhaeddodd y chwiw hel rhedyn ei uchafbwynt gan bron amddifadu mynyddoedd Cymru o'i thrysorau prin. Parhaodd yr arferiad o ddiwreiddio planhigion hyd ddiwedd y ganrif pan ddaeth y camera i gymryd lle y "vasculum" fel rhan hanfodol o gelfi'r llysieuydd.

Yn nyddiau cynnar y chwiw hel rhedyn peth digon hawdd oedd eu casglu gan eu bod i'w cael mewn safleoedd cymharol ddiogel ar y mynyddoedd, ond fel y cynyddai niferoedd y casglwyr rheibiwyd y safleoedd hyn o un i un gan adael y safleoedd peryglus yn unig ar ôl.

Fel y dywedais eisoes, uchelgais y mwyafrif o'r casglwyr Fictoraidd oedd ffurfio 'Herbarium', sef casgliad enfawr o redyn wedi eu sychu a'u gosod rhwng dalennau yn yr un modd ag y gwnaen ni heddiw â ffotograffau. Mae llawer o'r hen 'Herbaria' hyn i'w gweld heddiw mewn amgueddfeydd.

Ffurfid Clybiau Llysieuol hefyd a thrwy gyfrwng y rhain arferai'r aelodau gyfnewid enghreifftiau o wahanol redyn â'i gilydd. Y Clwb mwyaf poblogaidd oedd y *'Botanical Exchange Club'*, rhagredegydd y *'Botanical Society of the British Isles'*.

Dyma'r oes a welodd ddyfodiad dynion na falient ronyn am y rhedyn, na chwaith am ddyfodol llysieuaeth. Gafaelodd crafangau'r chwiw mor gryf ynddynt nes eu gyrru i fentro eu bywydau mewn mannau peryglus ar Glogwyn y Garnedd a llefydd cyffelyb. Roeddynt yn ymhyfrydu yn eu casgliadau. Byddent yn ymffrostio ym mysg ei gilydd, y naill am y gorau i ragori ar y llall.

* * *

UN O brif lysieuwyr Cymru, a fagwyd yn y cyfnod hwn, oedd y Dr John Lloyd Williams, 1854-1945, ond am ryw reswm fel cerddor y dewisodd ei gyd-Gymry ei gofio. Dechreuodd ei yrfa fel ysgolfeistr yng Ngarn Dolbenmaen yn 1875 a bu'n ddarlithydd cynorthwyol mewn llysieueg amaethyddol i'r Bwrdd Amaethyddiaeth ym Mangor.

Penodwyd ef yn athor llysieueg yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth yn 1915 ac yno y bu nes iddo ymddeol yn 1925. Daeth i adnabod planhigion Eryri yn ieuanc iawn a bu ei wybodaeth helaeth yn gymorth mawr i J E Griffith pan oedd yn casglu gwybodaeth ar gyfer ei *'Flora of Anglesey and Carnarvonshire'*.

*Cyfrannodd J Lloyd Williams 81 record am flodau a 14 am redyn i'r llyfr. Rhoddodd ddarlun byw a diddorol yn ei 'Atgofion Tri Chwarter Canrif' o'r cyfnod dan sylw ac ni allaf wneud yn well na dyfynnu o hwn ei dystiolaeth ef ei hun am sut y cafodd wared o "dwymyn yr Herbaria", chwedl yntau.*

*"Deuthum i adanbod rhai o'r casglyddion a chanfod, er fy nirfawr syndod, fod pob diddordeb yn y planhigyn yn marw y funud y caffent specimen crin ohonynt yn eu casgliadau. Daeth ataf offeiriad a oedd wedi cyhoeddi rhestr (Flora) o blanhigion un o siroedd Lloegr. Yr oedd rhywun wedi dweud wrtho y gwyddwn i lle'r oedd planhigyn pur brin yn tyfu; gofynnodd a wnawn i ddangos iddo'r fan. Arweiniais ef yno; cymerodd yntau un o'r planhigion ac aeth ag ef adref i'w sychu a'i gludio ar ddalen o bapur, a'i ychwanegu at ei gasgliad. Yna dywedais bod, ychydig bellter ymhellach enghreifftiau rhagorol o Asplenium septentrionale — planhigyn arall anodd ei gael, a gofyn a hoffai ef gael golwg arnynt. Ei ateb dicra oedd "No I already have a specimen in my Herbarium".*

A dyna'r frawddeg a fu'n ymwared i'r Dr J Lloyd Williams o'r clefyd casglu planhigion ar gyfer ffurfio "Herbarium".

Do, cafodd y rhedyn prin eu rheibio i'r fath raddfa fel nad oedd yn bosib mynd atynt bellach ond drwy ddringo clogwyni serth a llithrig, a'r rheini fel rheol yn wynebu tua'r gogledd ac yn cefnu ar yr haul. Fel y dywedais, byddai'r tywysyddion lleol yn gybyddus iawn â safleoedd y planhigion hyn ac yn mentro eu bywydau mewn mannau anhygyrch er mwyn eu cael i'w gwerthu i'r dieithriaid.

Cofnodir mewn un rhifyn o'r *'Phytologist'* fod tywysyddion lleol yn ystod haf 1849 yn pedlera Rhedyn Celyn (Polystichum lonchitis) i ymwelwyr ar gopa'r Wyddfa am chwe cheiniog y gwreiddyn. Mae sôn fod yr un peth yn digwydd ym Mryniau Moffat yn Ne'r Alban.

* * *

LLE DRWG a pheryglus iawn yw Clogwyn y Garnedd ar Yr Wyddfa, ond mae'n fan delfrydol iawn i blanhigion 'Alpaidd' prin. Yma y collodd tywysydd o Lanberis o'r enw William Williams ei fywyd wrth chwilota am blanhigion prin i'w gwerthu. Adwaenid ef fel Wil y Boots am iddo weithio am gyfnod fel glanhawr esgidiau yng Ngwesty'r Dolbadarn, Llanberis, ac adwaenir y rhigol lle cyfarfu â'i ddiwedd yn "Gully Wil Boots" hyd heddiw.

Yr arfer, meddir, oedd gadael rhaff i hongian ar y clogwyni i'w defnyddio fel y byddai angen. Y diwedd fu i'r rhaff bydru gydag amser a thorri gan ollwng y casglwr i'w farwolaeth ar y creigiau islaw. Bu damweiniau tebyg ar glogwyni ysgythrog y Glyder Fawr wrth i gasglwyr fentro i gyrraedd safle a fu ar un adeg yn enwog am y rhedyn prin "Woodsia ilvensis".

Gwyddai Hugh Derfel Hughes yn iawn am yr arferiad o ddringo ar ôl planhigion a dyfynnaf y manylion canlynol lle mae'n sôn am Gwm Idwal yn ei lyfr "Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid":

*"Cymerodd Mr Pennant, o'r Downing, sylw manwl o'r llysiau a dyfai yn y Gegin a'i hamgylchoedd, a byth er ei amser ef hyd heddiw, fe fydd nifer fawr o foneddigion ein trefydd yn ymweld â'r fan yn y tymor priodol.*

*Byddai ein meddygon enwog John Roberts, Penclip ac O O Roberts, y ddau o Fangor, ac hefyd ein meddygon cartrefol ffyddlon, megis O Rowland, Blaen Nant a John Owen, Pant y Ffrydlas yn ymweld ag ystlysau y Gegin bob blwyddyn wrth raffau, a chanddynt ffyn hirion, a chrymanau bychain yn eu pennau, i ryddhau y llysiau oddi ar yr ysgrafellydd peryglus; a deallwn fod ein cymydog, Gruffydd Roberts, 37 Penbryn, Bethesda, yn arfer myned yno ambell waith eto, wrth raffau."*

Wrth i'r chwiw gasglu gynyddu gwelodd masnachwyr eu cyfle i elwa ar y diddordeb. Byddai'r meithrinwyr hyn yn crwydo'r wlad i chwilio am redyn er mwyn cyflenwi eu stoc. Cyn gynted ag y clywid am ddarganfod planhigyn prin mewn safle newydd rhuthrid yno a'i gasglu bron hyd ddifodiant. Dioddefodd y rhedyn yn arbennig. Roedd chwant y Fictoriaid dosbarth canol am gasglu, tyfu a meithrin rhedyn yn anniwall.

* * *

OND ERBYN hyn 'roedd y rheibio di-ben-draw yn peri pryder mawr i'r llysieuwyr mwyaf cydwybodol. Gwelent fel yr oedd nifer y planhigion yn lleihau yn y mannau yr arferent ymweld â hwy'n flynyddol. Dyma a ddywedd y Dr J Lloyd Williams wrth sôn am un o fannau cyfoethocaf Cymru.

*"Hwyrach nad oes yn y cwm ddim o werth wedi ei adael gan y rheibwyr. Yr oedd yr holl Redyn Celyn ac amryw drysorau eraill wedi diflannu oddi yno cyn i mi adael Y Garn."*

Llysieuydd arall o'r un cyfnod oedd J E Griffith, Bangor (1843-1933), awdur y campwaith *"Flora of Anglesey and Carnarvonshire"*, ac yn ei nodiad am y Rhedyn Celyn (Polystichum lonchitis) ar dudalen 167 ni rydd hyd yn oed enw'r mynydd lle y tyfai, dim ond; *"Native; on damp shady rocks in the Snowdonia range"!* ac oddi tano: *"This fern is disappearing fast, and I am afraid it will soon be extinct"*.

Ar yr un dudalen mae'n enwi dwy safle i'r *Alpine Woodsia,* (Woodsia alpina), ond yn dilyn cawn y frawddeg hon i rybuddio'r darllenydd – *"In both places quite inaccessible without ropes"*.

Yn wyneb y difodi hwn pa ryfedd fod rhai llysieuwyr yn mynd i'r fath drafferth i gadw gwybodaeth am safleoedd newydd yn gyfrinach. Y ffordd arferol o gyhoeddi darganfyddiad newydd fyddai ei anfon i un o'r cylchgronau llysieuol, ond gan ofalu peidio â rhoi gormod o fanylion am y safle.

Gwelir hyn yn ffordd J E Griffith o gofnodi yn *"Flora of Anglesey and Carnarvonshire"*. Er enghraifft, ar dudalen 166 y cwbl a geir am bedair safle Rhedyn y Clogwyn (Asplenium septentrionale), yw *"Near Llanrwst, Nant Gwydir, Pass of Llanberis a Near Beddgelert"*.

* * *

YN UN arall o Arweinlyfrau'r cyfnod, *"Jenkinson's Practical Guide to North Wales"* (1878) ceir cofnod fel hyn am y Llugwe Fawr (Trichomanes speciosum). *"This rare and beautiful fern exists in the Snowdon district; but the exact locality is known to very few, and is wisely kept concealed."*

Byddai'n arfer gan y llysieuwyr gydnabod mewn print pan dderbynient wybodaeth gyfrinachol gan lysieuwyr eraill. Gwnaeth Daniel Angell Jones, Harlech (1861-1936), hyn yn ei *"Handbook to the Botany of Meirionethshire"*, llawysgrif na chyhoeddwyd mohoni erioed er iddi ddod yn fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Ffestiniog yn 1898. (Fe'i cedwir heddiw yn Llyfrgell Adran Llysieuaeth Amgueddfa Genedlaethol Cymru).

Am y Llugwe Fawr (Trichomanes speciosum) – a dyfai yr adeg honno gerllaw Harlech ond a ddiflannodd yno erbyn heddiw o ganlyniad gorgasglu, – ceir y nodiad hwn, *"Through the kindness of Mr Backhouse, I have seen the Harlech plant lately."*

/ dud. 17